

<b>Teitl:</b> <b>Title:</b>	Diogelu Plant ac Oedolion ac Agored I Niwed
--------------------------------	---

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

Dolen at Gam 1 Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb: / Equality Impact Assessment Stage 1 Link:	<a href="#">EIA Safeguarding Feb 20</a>
Dolen at Gam 2 Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb: / Equality Impact Assessment Stage 2 Link:	
Cynllun Gwella Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb / Equality Impact Assessment Improvement Plan	
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i>  <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i>  An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

<b>Perchennog y Ddogfen:</b> <b>Document Owner:</b>	<i>Karen Senior</i>
<b>Ymgynghoriad:</b> <b>Consultation:</b>	<i>Y Grŵp Diogelu</i>
<b>Corff Cymeradwyo:</b> <b>Approval Body:</b>	<i>Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant</i>
<b>Dyddiad Cymeradwyo:</b> <b>Approval Date:</b>	<i>25/02/20</i>
<b>Dyddiad Adolygu:</b> <b>Review Date:</b>	<i>24/02/21</i>
<b>Fersiwn:</b> <b>Version :</b>	<i>2</i>

Sicrhewch eich bod yn anfon eich dogfen at [Translation@cambria.ac.uk](mailto:Translation@cambria.ac.uk) ar ôl iddi gael ei chymeradwyo /  
Once approved, please ensure your document is sent to [Translation@cambria.ac.uk](mailto:Translation@cambria.ac.uk)

Please send all documents [policies@cambria.ac.uk](mailto:policies@cambria.ac.uk) for upload onto 4Policies

## Tabl Cynnwys

### Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed

Diben	3
Cwmpas	3
Prif Egwyddorion	3
Diffiniadau	3

### Gweithdrefn Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed

Cyfrifoldebau	4-8
Ymgynghori	8
Gweithdrefn	9-11
Hyfforddiant	12
Cyfathrebu a Chyhoeddi	12
Cyfeiriadau	12
Atodiad	13-17

## Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed

### Diben

Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd diogel i'w holl ddysgwyr. Mae'r ymrwymiad i Ddiogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed yn cael ei lywio gan ddeddfwriaeth gyffredinol a chanllawiau cyfredol Bwrdd Diogelu Plant Lleol yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019. Bydd Coleg Cambria yn cydymffurfio â gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 a bydd yn gweithio ar y cyd gydag asiantaethau eraill i sicrhau diogelwch a lles ei ddysgwyr ym mhob amgylchedd dysgu gan gynnwys canolfannau allgymorth, dysgu yn y gwaith a llety yn Llysfasi.

Nod y polisi hwn yw darparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r holl staff i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu ac i sicrhau arfer da cyson. Mae'r coleg wedi ymrwymo i ddiogelu dysgwyr, rhieni a phartneriaid eraill.

### Cwmpas

Mae Coleg Cambria yn cydnabod y cyfrifoldeb moesol a statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles pob dysgwr. Bydd y coleg yn ymdrechu i ddarparu amgylchedd diogel a chroesawgar lle mae dysgwyr yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Bydd y coleg yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod plant ac oedolion agored i niwed yn cael cymorth, arweiniad a chyfiawnder effeithiol.

### Prif Egwyddorion

Ein hegwyddorion diogelu craidd yw:-

- Mae diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb
- Lles pob dysgwr sydd bwysicaf
- Mae gan bob dysgwr, waeth beth fo'u hoedran, rhywedd, gallu, diwylliant, hil, iaith, crefydd neu hunaniaeth rywiol hawliau cyfartal i gael eu diogelu
- Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb cyfartal i weithredu ar unrhyw amheuaeth neu ddatgeliad a allai awgrymu bod dysgwr mewn perygl o niwed
- Bydd dysgwyr a staff sy'n ymwneud â materion amddiffyn diogelu yn cael cymorth priodol
- Mae dysgwyr mwy diogel yn gwneud dysgwyr mwy llwyddiannus
- Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol oni bai bod digwyddiad neu ddeddfwriaeth neu ganllaw newydd ar gael.

### Diffiniadau

Mae'r term "plentyn" yn cyfeirio at unrhyw unigolyn dan 18 oed. Mae felly'n cyfeirio at bob dysgwr hyd at 18 oed.

Mae'r term oedolyn "agored i niwed" yn cyfeirio at unrhyw unigolyn 18 oed a hŷn sydd angen gwasanaethau gofalu yn y gymuned, neu efallai sydd eu hangen, oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, oedran, salwch ac sydd yn methu gofalu amdanynt eu hunain, neu a allai fod yn methu gwneud hynny, neu'n methu amddiffyn eu hunain rhag niwed sylweddol neu gael eu hecsbloetio'n ddifrifol.

Lle cyfeirir at ddysgwyr yn y ddogfen hon, mae hynny'n cynnwys plant ac oedolion agored i niwed.

## Cyfrifoldebau

### Bydd y coleg yn:

- sicrhau bod y dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'n bod yn gwrando arnynt, a'u bod yn gwybod at bwy y gallant fynd os ydynt yn poeni neu mewn anhawster.
- dynodi aelod o staff sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed, sef Arweinydd Diogelu Dynodedig (ADD). Pennaeth y Gwasanaethau Myfyrwyr fydd yr aelod hwn a fydd yn sicrhau bod pob aelod o staff a llywodraethwyr yn gwybod ei (h)enw a'i swyddogaeth dan sylw.
- dynodi aelodau staff sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am reoli pob mater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed o ddydd i ddydd, sef aelodau'r Tîm Diogelu.
- atgyfeirio pob pryder neu honiad o gam-drin yn ddi-oed at yr asiantaethau priodol, trwy'r ADD neu'r Tîm Diogelu.
- cadw cofnodion cyfrinachol a diogel o'r holl atgyfeiriadau o'r fath.
- ceisio darparu cymorth priodol i'r dysgwr dan sylw, naill ai'n uniongyrchol neu trwy atgyfeirio, os ydym yn gwybod eu bod wedi cael eu cam-drin. rhoi cymorth gan eiriolwr o'r Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr i bob plentyn, os gwneir honiad plentyn i blentyn, tra ymchwilir i'r mater.
- cydnabod y gallai dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed oherwydd eu hoedran, eu hanabledd neu eu salwch fod mewn perygl o brofi, neu wedi profi camdriniaeth. Bydd y coleg yn darparu arweiniad ac addysg briodol i ddysgwyr ynghylch camdriniaeth, ac atal hynny, drwy ei system cymorth bugeiliol.
- dechrau'r broses gwneud cais am ddatgeliadau DBS ar gyfer yr holl staff a benodir a'u cyfeirio at Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) petai'n penderfynu bod angen gwneud hynny. Dyma'r corff statudol proffesiynol, hunanreoleiddiol ar gyfer aelodau o'r Gweithlu Addysg yng Nghymru. Fel cyflogwr personau cofrestredig, mae'r coleg yn gyfrifol am gyfeirio achosion o ymddygiad proffesiynol annerbyniol honedig, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a throedd berthnasol at y CGA. Yn unol â Rheoliadau'r CGA (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, mae gan y coleg ddyletswydd i gyfeirio achosion ato ble mae wedi diswyddo person cofrestredig, neu ble gallent fod wedi diswyddo person cofrestredig oni bai ei fod wedi ymddiswyddo.
- gofyn i ddysgwyr ddatgelu gwybodaeth am rai achosion troseddol penodol petai'r canlyniad mewn achos o'r fath yn effeithio ar y maes galwedigaethol y maent yn ei astudio mewn perthynas â phlant neu oedolion agored i niwed. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei thrin yn hollol gyfrinachol, ond, efallai y bydd angen i'r coleg weithredu ar y wybodaeth a rhoi gwybod i asiantaethau eraill. Fel arall, trwy gynadleddau achos a chyfarfodydd strategaeth gydag asiantaethau allanol (yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol ac ati) gellir rhoi gwybodaeth i'r coleg sy'n cwestiynu addasrwydd dysgwr ar raglen benodol. Os yw hynny'n wir, gwahoddir y dysgwr i drafod hynny a dilydir y Polisi Datgelu Collfarnau Troseddol heb Ddarfod.
- gweithredu'n ddi-oed ac yn rhoi gwybod am unrhyw honiad o gam-drin y gellir ei wneud yn erbyn aelod o staff y coleg.
- gweithio gydag asiantaethau priodol.
- sicrhau ei fod yn rhoi gwybod i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant am unrhyw drefniadau maethu preifat ar gyfer dysgwyr dan 15 oed.
- rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r gweithdrefnau hyn ac yn hyfforddi staff y coleg sut i'w gweithredu.

## Yr Arweinydd Diogelu Dynodedig (ADD)

- Bydd yr ADD yn ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb am ddiogelu ac amddiffyn plant (gan gynnwys diogelwch ar-lein) yn y coleg. Mae gan yr ADD y statws a'r awdurdod yn y coleg i gyflawni dyletswyddau'r swydd, sy'n cynnwys:
  - Sicrhau bod y Polisi Diogelu yn hysbys, yn cael ei ddeall a'i ddefnyddio'n briodol gan staff, yn cael ei adolygu'n flynyddol, a'i fod ar gael yn gyhoeddus.
  - Cynorthwyo a chynghori staff ar faterion diogelu.
  - Annog diwylliant o wrando ar ddysgwyr.
  - Rheoli atgyfeiriadau diogelu i ofal cymdeithasol plant, yr heddlu neu asiantaethau eraill cyn gynted a bo modd, ac yn sicr o fewn 24 awr o dderbyn yr honiad neu amheuaeth. Caiff hyn ei gadarnhau trwy anfon y dogfennau atgyfeirio.
  - Cymryd rhan mewn trafodaethau strategaeth a chyfarfodydd rhyngasiantaethol.
  - Cysylltu â'r 'rheolwr achos' a swyddog(ion) dynodedig yr awdurdod lleol lle gwneir honiadau yn erbyn staff.
  - Rhoi gwybod i staff am gyrsiau hyfforddi a'r trefniadau diogelu diweddaraf sydd ar gael drwy'r trefniadau partneriaeth diogelu lleol.
  - Trosglwyddo gwybodaeth berthnasol am ddysgwyr dan 18 oed i'r sefydliad addysg newydd.
  - Ymgymryd â hyfforddiant a derbyn y wybodaeth ddiweddaraf yn gyson i gynnal y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaeth, gan gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth o Prevent.
- Bydd yr ADD yn rhoi gwybod i ddeiliaid swyddi uwch am achosion lle ystyrir hynny'n briodol.
- Bydd pob dogfen yn cael ei chadw'n ddiogel yn unol â Pholisi Diogelu Data y coleg. Bydd cyfrinachedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel a dim ond gyda'r rhai y mae angen iddynt wybod y bydd yr amheuon a'r ymchwiliadau'n cael eu rhannu. Bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu dan arweiniad y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.
- Bydd yr ADD yn paratoi crynodeb ystadegol o'r canlyniadau o leiaf bob blwyddyn i'w gyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr.

## Y Dirprwy Arweinydd Diogelu Dynodedig

- Bydd y dirprwy yn cael ei hyfforddi i'r un lefel â'r ADD a bydd yn cynorthwyo'r ADD gyda materion diogelu fel sy'n briodol. Bydd y dirprwy ADD yn gweithredu'r swyddogaethau hynny sy'n ofynnol i sicrhau diogelwch ac amddiffyniad plant ac oedolion agored i niwed petai'r ADD yn absennol. Os yw'r ADD yn absennol tymor hir, bydd y dirprwy ADD yn cymryd cyfrifoldeb am y swyddogaethau uchod.

## Recriwtio Mwy Diogel

- Bydd y coleg yn cydymffurfio â gofynion Gweithdrefnau Diogelu i Gymru, Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg (DfE 2019) a'r trefniadau partneriaeth diogelu lleol, trwy gynnal y gwiriadau gofynnol a dilysu hunaniaeth, cymwysterau a hanes gwaith ymgeiswyr. Mae Polisi Recriwtio, Dethol a Phenodi Staff y Coleg yn nodi'r broses yn llawn.
- Rhoddir gwybod i holl staff meithrinfa perthnasol am yr hyn sy'n gallu anghymwysu unigolion yn y ddeddfwriaeth gofal plant a'u rhwymedigaethau i ddatgelu gwybodaeth berthnasol i'r coleg.

- Bydd y coleg yn cael cadarnhad ysgrifenedig gan asiantaethau cyflenwi neu sefydliadau trydydd parti bod staff asiantaeth neu unigolion eraill a allai weithio yn y coleg wedi cael eu gwirio'n briodol a'u bod yn addas i weithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed. Bydd athrawon dan hyfforddiant yn cael eu gwirio gan ddilyn yr un broses.
- Mae'r coleg yn cadw un cofnod canolog o wiriadau recriwtio a gynhaliwyd.

### Gwirfoddolwyr

- Bydd gwirfoddolwyr, gan gynnwys llywodraethwyr, yn cael gwiriadau sy'n gymesur â'u gwaith yn y coleg, eu cyswllt â dysgwyr a'r oruchwyliaeth a ddarperir iddynt. Ni fydd gwirfoddolwyr nad ydynt wedi cael eu gwirio'n briodol yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth o dan unrhyw amgylchiadau.

### Diogelwch Safleoedd

- Gofynnir i ymwelwyr â'r coleg, gan gynnwys contractwyr, fewngofnodi a rhoddir bathodyn iddynt, sy'n cadarnhau bod ganddynt ganiatâd i fod ar y safle. Mae Polisi a Gweithdrefnau Diogelwch Safleoedd y coleg yn berthnasol i bob ymwelydd â Safleoedd Coleg Cambria.

### Trefniadau Gweithgareddau Estynedig ac Oddi ar Safleoedd y Coleg

- Mae'n rhaid asesu risg pob gweithgaredd estynedig ac oddi ar y safle i fodloni gofynion iechyd a diogelwch. Lle mae gweithgareddau coleg estynedig yn cael eu darparu a'u rheoli gan y coleg, mae Polisi a Gweithdrefnau Diogelu'r coleg yn berthnasol iddynt. Os yw sefydliadau eraill yn darparu gwasanaethau neu weithgareddau ar safle'r coleg, byddant yn cael eu gwirio i sicrhau bod ganddynt weithdrefnau priodol ar waith, gan gynnwys gweithdrefnau recriwtio mwy diogel.
- Pan fydd dysgwyr yn gwneud gweithgareddau oddi ar y safle, gan gynnwys ymweliadau dydd a phreswyl a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith, byddwn yn eu gwirio i sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith.

### Dysgwyr a allent fod yn arbennig o agored i niwed

Efallai y bydd gan rai dysgwyr risg uwch o gael eu cam-drin. Gall llawer o ffactorau gyfrannu at gynydd mewn risg, gan gynnwys rhagfarn a gwahaniaethu, arwahanrwydd, allgau cymdeithasol, materion cyfathrebu ac amharodrwydd rhai oedolion i dderbyn y gall cam-drin ddigwydd. I sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hamddiffyn yn gyfartal, bydd y coleg yn rhoi ystyriaeth arbennig i ddysgwyr sydd yn:

- byw oddi cartref yn llety Llysfasi neu mewn llety dros dro.
- byw mewn sefyllfaoedd cartref anhrefnus a heb gefnogaeth.
- byw bywydau crwydrol.
- cael eu heffeithio arnynt gan gam-drin sylweddau, trais domestig neu anghenion iechyd meddwl rhiant.
- agored i gael eu bwlio neu gymryd rhan mewn bwlio.
- agored i wahaniaethu yn eu herbyn a chamarfer ar sail hil, ethnigrwydd, crefydd, anabledd neu rywioledeb.

- methu â siarad Cymraeg na Saesneg fel mamiaith.
- agored i gam-fanteisio arnynt, anffurfio organau cenhedlu benywod, priodi trwy rym neu gael eu denu at eithafiaeth.

Mae'r rhestr yn cynnwys esiamplau o grwpiau ychwanegol sy'n agored i niwed ac nid yw'n gynhwysfawr.

### Dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac Anabledau

Mae dysgwyr ag ADY ac anabledau yn gallu wynebu heriau diogelu ychwanegol. Mae'n bosibl bod rhwystrau ychwanegol wrth ganfod camdriniaeth ac esgeulustod yn y grŵp hwn o ddysgwyr, sy'n gallu cynnwys:

- Rhagdybiaethau bod dangosyddion camdriniaeth posibl fel ymddygiad, hwyliau ac anafiadau, yn gysylltiedig ag anabled y dysgwr heb eu harchwilio ymhellach.
- Y posibilrwydd i ddysgwyr ag ADY ac anabledau gael eu heffeithio'n anghymesur gan ymddygiadau fel bwlio, heb ddangos unrhyw arwyddion yn allanol.
- Rhwystrau ac anawsterau cyfathrebu mewn goresgyn yr anawsterau hyn.

### Gweithwyr Coleg Cambria

- Os yw aelod o staff y Coleg yn amau neu'n cael gwybod y gallai plentyn neu unigolyn agored i niwed fod wedi cael ei gam-drin, rhaid rhoi gwybod i'r Tîm Diogelu yr un diwrnod, naill ai trwy atgyfeiriad ar lafar neu trwy ddefnyddio'r Ffurflen Atgyfeirio/Botwm Diogelu Coleg ar y fewnwyd. Ni ddylai staff holi'r dysgwr na chynnwys sylwadau mewn unrhyw ddatganiad ganddynt.  
Bydd staff yn cael hyfforddiant addas i sicrhau bod hyn yn digwydd.
- Wrth drefnu lleoliad gwaith, bydd staff y coleg yn sicrhau bod y lleoliad yn cael ei arddangos ar hyn o bryd ar y Gronfa Ddata Lleoliadau Gwaith Cymeradwy neu os nad yw yno, bydd yn gwneud cais am gael archwilio'r lleoliad. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr yn y gwaith neu ddysgwyr ar raglenni profiad gwaith. Rheolir y broses archwilio yn y gweithle gan adran Iechyd a Diogelwch yr Adran Ystadau ac mae'r broses yn ystyried egwyddorion Llesiant a Diogelu. Lle bo hynny'n briodol, bydd gan y dysgwyr sy'n cael eu lleoli wiriad DBS dilys cyfredol a bydd y coleg yn gweithio gyda lleoliadau ar faterion yn ymwneud â diogelu.
- Mae'n rhaid i staff coleg sylweddoli bod ymddygiad amhriodol tuag at ddysgwyr yn annerbyniol a bod yn rhaid i'w hymddygiad fod yn ddi-fai. O dan Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 mae'n drosedd i unigolyn dros 18 oed gael perthynas rywiol ag unigolyn o dan 18 oed, lle mae'r unigolyn hwnnw mewn sefyllfa o ymddiriedaeth, hyd yn oed os yw'r berthynas yn gydsyniol. Mae hyn yn golygu y gallai unrhyw weithgaredd rhywiol rhwng aelod o'r coleg a dysgwr dan 18 oed fod yn drosedd. Mae Cod Ymddygiad y coleg yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer staff.
- Mae'r Coleg yn rhoi cyngor i staff ynghylch eu gweithgaredd personol ar-lein yn y Polisi Diogelwch Gwybodaeth (is-bolisi: Polisi Defnydd TG Derbyniol) a'r Polisi Cyfryngau

Cymdeithasol. Os canfyddir bod staff yn torri'r rheolau hyn, gellir eu disgyblu neu gallwn gynnal ymchwiliad diogelu.

- Os gwneir honiad o gam-drin yn erbyn aelod o staff y coleg bydd yr ADD yn dilyn y canllawiau Rhan 4 Gweithdrefnau Diogelu i Gymru 2019 a gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW).
- Byddwn yn rhoi gwybod i'r heddlu am honiadau ynghylch staff nad ydynt bellach yn gweithio yn y coleg, neu am honiadau hanesyddol.
- Heb os, mae staff sy'n poeni am ymddygiad cydweithiwr tuag at ddysgwr yn cael eu rhoi mewn sefyllfa anodd iawn. Efallai eu bod yn poeni eu bod wedi camdeall y sefyllfa a byddant yn meddwl tybed a allai rhoi gwybod am hynny beryglu gyrfa cydweithiwr. Rhaid i'r staff i gyd gofio mai lles y dysgwr sydd bwysicaf. Mae Polisi Chwythu'r Chwiban y Coleg yn galluogi staff i fynegi pryderon neu honiadau, yn gyfrinachol i ddechrau fel ein bod yn gallu cynnal ymchwiliad sensitif. Dylid rhoi gwybod i'r ADD am bob pryder ynghylch arfer gwael neu gamdriniaeth bosibl gan gydweithwyr. Dylid rhoi gwybod i Gadeirydd y Llywodraethwyr am bob hysbysiad neu gŵyn am y Prif Weithredwr neu'r Pennaeth, a fydd yn cysylltu â'r awdurdod lleol ac yn dilyn canllawiau Rhan 4 o Weithdrefnau Diogelu i Gymru 2019 a CIW.

### Y Grŵp Diogelu

- Bydd y coleg yn sefydlu ac yn cynnal Grŵp Diogelu, dan gadeiryddiaeth y Pennaeth, a sicrhau bod aelodau'r grŵp hwn yn cynrychioli'r coleg mewn cyfarfodydd priodol.
- Bydd y grŵp hwn yn cydnabod swyddogaeth yr ADD ac yn trefnu cymorth a hyfforddiant. Byddant yn sicrhau bod yr ADD yn cynrychioli'r coleg mewn cyfarfodydd priodol.
- Yn absenoldeb yr ADD, bydd y dirprwy aelod staff a enwyd yn gweithredu gweithdrefnau petai angen.
- Bydd y grŵp hwn yn sicrhau bod y corff llywodraethu a phob aelod o staff yn gwybod:
  - Beth yw enw'r ADD a'i swyddogaeth
  - Bod ganddynt ddyletswydd fel unigolion i atgyfeirio pryderon ynghylch diogelu gan ddefnyddio'r llwybrau cywir ac o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt gyda'r Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant.

### Ymgynghori

Bydd y coleg yn sicrhau bod y polisi Diogelu yn cael ei arwain gan y Byrddau Diogelu Lleol ar gyfer Plant a CIW priodol.

Bydd y coleg yn sefydlu ac yn cynnal Grŵp Diogelu, dan gadeiryddiaeth y Pennaeth. Bydd y polisi Diogelu yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant yn flynyddol.



## Gweithdrefn

### Adnabod Camdriniaeth

Mae cam-drin ac esgeulustod yn fathau o gamdriniaeth. Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn / oedolyn agored i niwed, a'u niweidio trwy eu taro neu fetu â gweithredu i atal niwed. Gall ddynion neu fenywod sy'n oedolion neu blant a phobl ifanc eraill gam-drin rhywun.

Mae'r Gweithdrefnau Diogelu i Gymru 2019 yn cyfeirio at y categorïau camdriniaeth ac maent wedi'u rhestru yn Atodiad 1 y polisi hwn.

### Dangosyddion Camdriniaeth

Mae arwyddion corfforol yn diffinio rhai mathau o gamdriniaeth, er enghraifft, cleisio, gwaedu neu esgyrn wedi torri, sy'n deillio o gam-drin corfforol neu rywiol, neu anafiadau a gafwyd wrth beidio â goruchwyllo plentyn yn ddigonol. Mae adnabod arwyddion corfforol yn gymhleth, oherwydd gall plant fynd i drafferth fawr i guddio anafiadau, a hynny'n aml oherwydd bod ganddynt gywilydd neu eu bod yn swil, neu fod eu camdriniwr wedi bygwth trais neu drawma pellach os ydynt yn 'dweud'. Mae hefyd yn eithaf anodd i unrhyw un heb hyfforddiant meddygol gategoreiddio anafiadau fel rhai damweiniol neu fwriadol gydag unrhyw raddau o sicrwydd. Oherwydd y rhesymau hyn, mae'n hanfodol bod staff hefyd yn gwybod am yr ystod o ddangosyddion ymddygiad gwybyddol camdriniaeth, a'u bod yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r ADD.

Mae'n gyfrifoldeb ar y staff i gyd i roi gwybod am eu pryderon ond nid yw'n gyfrifoldeb arnynt i ymchwilio neu benderfynu a yw plentyn neu berson ifanc wedi'i gam-drin.

Efallai bydd plant sydd wedi cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu hecsbloetio yn:

- gleisiau, yn gwaedu, â llosgiadau, esgyrn wedi'u torri neu anafiadau eraill
- dangos arwyddion poen neu annifyrrwch
- cadw eu breichiau a'u coesau wedi'u gorchuddio, hyd yn oed mewn tywydd cynnes
- pryderus ynghylch newid ar gyfer sesiynau chwaraeon
- edrych yn flêr a heb dderbyn gofal
- newid eu harferion bwyta
- cael anhawster gwneud ffrindiau neu eu cadw
- edrych yn ofnus
- bod yn ddi-hid am eu diogelwch eu hunain neu ddiogelwch pobl eraill
- hunan-niweidio
- yn absennol yn aml, yn cyrraedd yn hwyr neu'n gadael y coleg am ran o'r diwrnod
- dangos arwyddion o beidio ag eisiau mynd adref
- dangos newid mewn ymddygiad – o fod yn dawel i fod yn ymosodol, neu o fod yn hapus braf i fod yn dawedog
- herio awdurdod
- colli diddordeb yn eu gwaith coleg
- synfyfrio neu wedi blino'n barhaus
- gochel rhag cyswllt corfforol
- cymryd cyffuriau neu'n yfed alcohol neu'n gwybod llawer amdanynt
- dangos gwybodaeth neu ymddygiad rhywiol y tu hwnt i'r hyn a ddisgwyllir ar gyfer eu hoedran

- cael rhoddion fel arian neu ffôn symudol newydd gan ‘ffrindiau’ newydd.

Anaml y bydd dangosyddion unigol, ar eu pennau eu hunain, yn dystiolaeth bendant o gamdriniaeth. Dylid eu hystyried yn rhan o batrwm ehangach a bydd pob darn bach o wybodaeth yn helpu'r ADD i benderfynu sut i weithredu.

## Bwlio

Er nad yw bwlio rhwng dysgwyr yn gategori ar wahân o gamdriniaeth ac esgeulustod, mae'n fater difrifol iawn sy'n gallu achosi pryder a thrallod. Dylid rhoi gwybod am bob achos o fwlio, gan gynnwys seiber-fwlio a bwlio ar sail rhagfarn, a bydd yn cael ei reoli trwy Bolisi a Gweithdrefn y coleg ar gyfer Delio â Bwlio ac Aflonyddu yn erbyn Dysgwyr.

## Cyfoedion yn cam-drin cyfoedion

Gallai dysgwr gael ei niweidio gan ddysgwyr eraill neu bobl ifanc. Bydd staff yn gwybod am y niwed sy'n cael ei achosi gan fwlio ac yn defnyddio gweithdrefnau gwrth-fwlio y coleg lle bo angen. Fodd bynnag, mae'r holl staff yn cydnabod y gall dysgwyr gam-drin eu cyfoedion, a dylent fod yn glir beth yw polisi a gweithdrefnau'r coleg o ran cyfoedion yn cam-drin cyfoedion. Mae pob achos o gam-drin cyfoedion yn annerbyniol a bydd yn cael ei ystyried yn fater difrifol. Rhestrir rhai mathau o gam-drin cyfoedion gan gyfoedion yn Atodiad 1.

## Dysgwyr sy'n aros gyda theuluoedd lletyol

Efallai bydd yr adran Ryngwladol yn trefnu bod dysgwyr sy'n ymweld â'r coleg, yna aros gyda theulu lletyol pan fyddant ar gyfnewid tramor neu ymweliad addysgol. Byddwn yn cael gwiriad DBS ar gyfer yr unigolion sy'n byw yn y cartref y bydd y dysgwr yn cael ei leoli ynddo. Bydd teuluoedd lletyol yn cael eu hyfforddi ynghylch gweithdrefnau diogelu ac yn gwybod at bwy i roi gwybod os oes ganddynt unrhyw bryderon.

## Gweithredu

Mae'n bosibl i unrhyw ddysgwr, mewn unrhyw deulu mewn unrhyw goleg, ddioddef camdriniaeth. Dylai staff arddel agwedd “gallai ddigwydd yma” bob amser a dylent gofio:

- Gweithredu fel bo angen i helpu'r dysgwr (gan gynnwys ffonio 999).
- Rhoi gwybod am y pryder ar unwaith i'r ADD/a thrwy ddefnyddio'r Botwm Diogelu ar fewnwyd y staff.
- Peidio â dechrau ymchwilio eu hunain.
- Rhannu wybodaeth â'r rhai ddylai gael gwybod yn unig – peidio â thrafod y mater gyda chydweithwyr, ffrindiau na theulu.
- Chwilio am gymorth os yw'r sefyllfa'n eu poeni.
- Mynegi pryderon os oes amheuaeth bod dysgwyr mewn perygl neu fod eu hymddygiad wedi newid, eu gwaith celf yn od, neu eu bod yn ysgrifennu storïau neu farddoniaeth sy'n datgelu dryswch neu ofid. Efallai bydd arwyddion corfforol i'w gweld a dylai staff roi cyfle i'r dysgwyr siarad, a gofyn a allant eu helpu mewn unrhyw fodd. Dylai staff ddefnyddio'r Botwm Diogelu ar y fewnwyd i roi gwybod am bryderon cynnar.
- Os yw dysgwyr yn datgelu eu bod yn cael eu cam-drin, dylent ddilyn y broses a ganlyn.

- Gadael iddynt siarad yn rhydd
- Peidio â chynhyrfu a pheidio â gorymateb
- Nodio eu pen neu gynnig ambell i air i'w cysuro a pheidio ag ofni tawelwch
- Peidio â chynnig unrhyw gyffyrddiad corfforol i'w cysuro yn awtomatig
- Peidio â gofyn cwestiynau ymchwiliol o fath yn y byd
- Osgoi ceryddu'r dysgwr am beidio â datgelu ynghynt
- Dweud wrth y dysgwr beth fydd yn digwydd nesaf
- Dweud wrth yr ADD cyn gynted ag y bo modd
- Cwblhau'r adroddiad Botwm Diogelu cyn gynted ag y bo modd
- Ceisio cefnogaeth

### Rhoi gwybod i rieni (plant dan 18 oed)

- Fel rheol, bydd y coleg yn ceisio trafod unrhyw bryderon am ddysgwyr gyda'u rhieni/gwarcheidwad. Rhaid ymdrin â hyn yn sensitif a bydd yr ADD yn cysylltu â'r rhiant/gwarcheidwad os bydd pryder, amheuaeth neu ddatgeliad. Os yw'r ADD yn credu bod hysbysu rhieni/gwarcheidwaid yn gallu cynyddu'r risg i'r dysgwr neu waethygu'r broblem, gofynnir am gyngor i ddechrau gan yr awdurdod lleol a/neu'r heddlu cyn cysylltu â'r rhieni/gwarcheidwaid.

### Cyfrinachedd / Rhannu gwybodaeth

- Bydd y staff i gyd yn deall bod materion diogelu yn gofyn am lefel uchel o gyfrinachedd. Dim ond gyda'r Tîm Diogelu y dylai staff drafod pryderon. Bydd yr unigolyn hwnnw wedyn yn penderfynu gyda phwy arall y mae angen rhannu'r wybodaeth a byddant yn gwneud hynny ar sail 'angen cael gwybod'.
- Bydd gwybodaeth am ddiogelu yn cael ei chadw a'i thrin yn unol ag Amserlen Cadw Gwybodaeth y coleg am 20 mlynedd.
- Bydd rhannu gwybodaeth yn digwydd yn brydlon ac yn ddiogel a lle bo angen gwneud hynny, a bod hynny'n gymesur, bydd y wybodaeth yn berthnasol, yn ddigonol ac yn gywir.
- Bydd penderfyniadau rhannu gwybodaeth yn cael eu cofnodi p'un a phenderfynir rhannu'r wybodaeth ai peidio.
- Defnyddir cyfrinair i warchod unrhyw gofnodion diogelu electronig a bydd ond ar gael i unigolion perthnasol.
- Bydd yr ADD yn cael caniatâd y dysgwr a/neu'r rhieni i rannu gwybodaeth sensitif yn y coleg neu gydag asiantaethau allanol. Pan fydd rheswm da dros wneud hynny, gall yr ADD rannu gwybodaeth heb ganiatâd, a bydd yn cofnodi'r rheswm dros beidio â chael caniatâd.
- Os yw unrhyw aelod staff yn cael cais gan ddysgwr a/neu riant/warcheidwad i weld cofnod diogelu, dylent gyfeirio'r cais at y Swyddog Diogelu Data.
- Nid yw'r GDPR na Deddf Diogelu 2018 yn atal y coleg rhag rhannu gwybodaeth â'r asiantaethau perthnasol, lle efallai bydd y wybodaeth honno'n helpu i ddiogelu plentyn.

## **Hyfforddiant / Cymorth**

Mae'n bwysig bod y staff i gyd yn derbyn hyfforddiant i'w galluogi i adnabod arwyddion posibl camdriniaeth, esgeulustod ac ecsbloetio, ac i wybod beth i'w wneud os oes ganddynt bryder.

Bydd staff a llywodraethwyr newydd yn cael sesiwn frifio yn ystod eu cyfnod ymsefydlu, a fydd yn cynnwys Polisi Diogelu a Pholisi Cod Ymddygiad y coleg, trefniadau rhoi gwybod a chofnodi, a manylion yr ADD. Bydd y staff i gyd, gan gynnwys yr ADD, y Pennaeth, y Prif Weithredwr a'r llywodraethwyr, yn cael hyfforddiant a fydd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Bydd y staff i gyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelu trwy e-bost, y wefan a chyfarfodydd staff trwy gydol y flwyddyn.

Bydd y cymorth i ddysgwyr sydd wedi cael eu niweidio yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a natur y gamdriniaeth. Gallai'r cymorth gynnwys cwnsela, mentora, cymorth i'r teulu a ffrindiau a/neu gymorth i wella perthnasoedd â chyfoedion.

Efallai y bydd angen cymorth hefyd ar y dysgwr a fu'n niweidio. Bydd y coleg yn ceisio deall pam y gweithredodd y dysgwr fel hyn ac yn ystyried pa gymorth allai fod ei angen i helpu'r dysgwr a/neu newid ymddygiad. Ar ôl bodloni'r rheini, eir i'r afael â rhoi sylw i ganlyniadau'r niwed a achoswyd neu a fwriadwyd.

Bydd staff sy'n ymwneud ag unrhyw fater diogelu yn cael cynnig cymorth trwy'r Adran Adnoddau Dynol a fydd efallai'n gofyn am gymorth ychwanegol gan y cwnselydd petai angen hynny.

## **Cyfathrebu a Chyhoeddi**

### **Polisiau Cysylltiedig**

- Cod Ymddygiad
- Gweithdrefn Cwynion
- Polisi Diogelu Data
- Polisi DBS
- Amserlen Cadw Gwybodaeth
- Polisi Diogelwch Gwybodaeth (is-bolisi: Polisi Defnydd TG Derbyniol)
- Polisi Plant sy'n Derbyn Gofal
- Polisi a Gweithdrefn Delio â Bwlio ac Aflonyddu Dysgwyr
- Polisi Recriwtio, Dethol a Phenodi
- Polisi Diogelwch Safleoedd
- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol
- Polisi Datgelu Collfarnau Troseddol heb Ddarfod
- Polisi Chwythu'r Chwiban

### **Cyfeiriadau**

Gweithdrefnau Diogelu ar gyfer Cymru 2019.

Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant (2018).

Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg (DfE) (2019).

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Llywodraeth Cymru (2015).

Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant Cymru (2004).

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Canllawiau Dyletswydd Prevent Diwygiedig Llywodraeth EM ar gyfer Cymru a Lloegr (Diwygiedig 2019).

Canllawiau'r Ddyletswydd Prevent ar gyfer Sefydliadau AB yng Nghymru a Lloegr.

## **Atodiad 1**

### **Cam-drin Corfforol**

Mae cam-drin corfforol yn fath o gamdriniaeth sy'n gallu cynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol fel arall i blentyn. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau salwch, neu'n achosi'n salwch yn fwriadol, mewn plentyn. Cyfeirir at hyn fel salwch ffug neu wedi'i ysgogi.

### **Cam-drin Emosiynol**

Cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus er mwyn achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall olygu cyfleu i blentyn ei fod yn ddi-werth neu nad oes neb yn ei garu, ei fod yn annigonol, neu'n cael ei werthfawrogi dim ond i'r graddau y mae'n diwallu anghenion rhywun arall. Efallai bydd yn cynnwys peidio â rhoi cyfleoedd i'r plentyn fynegi barn, eu distewi'n fwriadol neu 'wneud hwyl' am hyn y maent yn ei ddweud neu sut y maent yn cyfathrebu. Gall y rhain gynnwys gosod disgwyliadau amhriodol o ran oedran neu ddatblygiadol ar blentyn. Maent yn gallu cynnwys rhyngweithiadau sydd y tu hwnt i allu datblygiadol plentyn, yn ogystal â goramddiffyn a chyfyngu ar archwilio a dysgu, neu atal y plentyn rhag cymryd rhan mewn rhyngweithio cymdeithasol arferol. Gall gynnwys gweld neu glywed rhywun arall yn cael eu cam-drin. Gall gynnwys bwlio difrifol (gan gynnwys seiber-fwlio), gan achosi i'r plant deimlo ofn yn aml neu fod mewn perygl, neu gael eu hecsbloetio neu eu llygru. Mae rhywfaint o gam-drin emosiynol yn gysylltiedig â phob math o gamdriniaeth plentyn, er y gallai ddigwydd ar ei ben ei hun.

### **Cam-drin Rhywiol**

Mae cam-drin rhywiol yn cynnwys gorfodi neu ddenu plentyn neu unigolyn ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, na sydd o reidrwydd yn cynnwys lefel uchel o drais, p'un a yw'r plentyn yn sylweddoli beth sy'n digwydd ai peidio. Gallai'r gweithgareddau hyn gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys ymosod trwy dreiddiad (er enghraifft, treisio neu ryw geneuol) neu weithredoedd nad ydynt yn dreiddiol fel cusanu, mastyrbio, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i ddillad. Gallent hefyd gynnwys gweithgareddau digyswllt, fel cynnwys plant yn edrych ar ddelweddau rhywiol, neu gynhyrchu'r delweddau hynny, gwyllo gweithgarwch rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol, neu baratoi plentyn ar gyfer ei gam-drin (gan gynnwys trwy'r rhyngwyd). Nid dynion sy'n oedolion yn unig sy'n cam-drin plant yn rhywiol. Gall menywod hefyd gyflawni gweithredoedd cam-drin rhywiol, fel y gall plant eraill.

### **Esgeulustod**

Esgeulustod yw methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn, sy'n debygol o arwain at nam difrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall esgeulustod ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i gam-drin sylweddau gan y fam. Unwaith y bydd plentyn yn cael ei eni, gall esgeulustod olygu bod rhiant/gofalwr yn methu â:

- Darparu digon o fwyd, dillad a lloches (gan gynnwys gwahardd y plentyn o'r cartref neu ei adael).
- Amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol ac emosiynol.
- Sicrhau goruchwyliaeth ddigonol (gan gynnwys defnyddio rhoddwyr gofal annigonol).
- Sicrhau mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso, neu beidio ag ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol plentyn.

### **Cyfoedion yn Cam-drin Cyfoedion**

- Cam-drin corfforol fel brathu, taro, cicio neu dynnu gwallt.
- Ymddygiad rhywiol niweidiol/cam-drin rhywiol fel iaith rywiol amhriodol, cyffwrdd, ymosodiadau rhywiol neu dreisio.
- Secstio gan gynnwys pwysu ar unigolyn arall i anfon delweddau rhywiol neu gynnwys fideo.
- Cam-drin perthnasau ag unigolion yn eu harddegau - wedi'i ddiffinio fel patrwm o weithredoedd cam-drin corfforol, rhywiol neu emosiynol gwirioneddol neu dan fygythiad, a gyflawnir yn erbyn partner presennol neu gynbartner.
- Uwchsgertio - tynnu llun o dan ddillad rhywun heb yn wybod iddynt.
- Cyflwyno/annifyrru – sy'n cael ei ddefnyddio i gyflwyno newydd-ddyfodiad i grŵp/sefydliad fel tîm chwaraeon neu grwpiau coleg drwy eu gorfodi i gyflawni treialon sydd efallai'n eu hiselhau, codi cywilydd arnynt neu'n eu cam-drin, i greu perthynas rhyngddynt fel aelodau.
- Ymddygiad rhagfarnllyd - ystod o ymddygiadau sy'n achosi i rywun deimlo'n ddi-rym, yn ddi-werth neu'n cael ei eithrio, ac sy'n ymwneud â rhagfarnau ynghylch perthyn, hunaniaeth a chydaddoldeb, yn enwedig rhagfarnau sy'n gysylltiedig ag anableddau, anghenion addysgol arbennig, cefndiroedd ethnig, diwylliannol a chrefyddol, rhywedd a hunaniaeth rywiol.

### **Trais Difrifol**

Rydym yn rhoi gwybod i'n staff i gyd am ddangosyddion bod dysgwyr mewn perygl o droseddau treisgar difrifol neu fod yn gysylltiedig â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys cynnydd mewn rhagor o absenoldebau, newid cyfeillion, neu berthnasau ag unigolion neu grwpiau hŷn, dirywiad sylweddol mewn perfformiad, arwyddion o hunan-niweidio neu newid sylweddol mewn llesiant, neu arwyddion o ymosodiad neu anafiadau anesboniadwy. Gallai rhoddion anesboniadwy hefyd nodi bod unigolion sy'n gysylltiedig â gangiau troseddol wedi cysylltu â dysgwyr neu'n ymwneud â nhw.

### **Diogelwch Ar-lein**

Wrth i golegau weithio fwyfwy ar-lein, mae'n hanfodol bod dysgwyr yn cael eu diogelu rhag deunyddiau a allant fod yn amhriodol ac yn niweidiol iddynt. Mae defnyddio technoleg bellach yn rhan sylweddol o nifer o faterion diogelu, fel cymryd mantais yn rhywiol ar blant, radicaleiddio a rheibio'n rhywiol.

### **Secstio**

Nid oes diffiniad cydnabyddedig o 'secstio' ond mae'r rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol yn cytuno ei fod yn cyfeirio at anfon neu bostio delweddau awgrymog yn rhywiol, gan gynnwys ffotograffau noethlymun neu led-noethlymun o unigolion dan 18 oed, trwy ffonau symudol neu dros y rhyngwrwyd. Gellir cyfeirio at hyn fel 'delweddau rhywiol a luniwyd gan bobl ifanc'.

Byddwn yn ymateb i bob digwyddiad o ddelweddau rhywiol a luniwyd gan bobl ifanc fel a ganlyn:

- Cyfeirir y digwyddiad at yr ADD ar unwaith a bydd yr ADD yn cynnal cyfarfod adolygu dechreuol gyda'r staff priodol. Cynhelir cyfweiliadau dilynol gyda'r bobl ifanc sydd ynghlwm â'r digwyddiad, os yw hynny'n briodol.
- Rhoddir gwybod i rieni'n gynnar yn y broses, a'u cynnwys, oni bai fod rhesymau da dros gredu y byddai cynnwys y rhieni yn rhoi'r unigolyn ifanc mewn perygl o gael ei niweidio.
- Petai pryder unrhyw bryd yn ystod y broses bod unigolyn ifanc wedi cael ei niweidio neu ei fod mewn perygl o gael ei niweidio, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol plant a/neu'r heddlu ar unwaith, yn unol â'r polisi hwn.
- Efallai bydd rhaid cyfeirio rhai achosion at yr heddlu. Unwaith y bydd adroddiad wedi'i gyflwyno i'r heddlu, dylid cofnodi'r adroddiad a bydd yr heddlu yn ymchwilio iddo. Efallai bydd hynny'n cynnwys atafaelu'r dyfeisiau a chyfweld y bobl ifanc dan sylw.

### **Camfanteisio Rhywiol ar Blant**

Mae Camfanteisio Rhywiol yn cynnwys unigolyn neu grŵp o oedolion yn manteisio ar natur fregus unigolyn neu grwpiau o blant neu bobl ifanc, a gall dioddefwyr fod o unrhyw rhywedd. Mae pobl ifanc yn aml yn cael eu denu i gael eu hecsbloetio'n rhywiol yn ddjarwybod iddynt, trwy gynnig cyfeillgarwch a gofal, anrhegion, cyffuriau ac alcohol, ac weithiau llety. Mae'n drosedd ddifrifol a gall effeithio'n andwyol tymor hir ar iechyd corfforol ac emosiynol dysgwyr. Efallai ei fod hefyd yn gysylltiedig â masnachu plant. Efallai na fydd yr unigolyn ifanc yn cydnabod natur orfodol y berthynas ac nid yw'n ystyried ei fod yn ddiodefwr. I ddechrau, gall y dysgwr fod yn ddig am yr hyn y maent yn ei ystyried yn ymyrraeth gan staff, ond mae'n rhaid i staff weithredu ar eu pryderon, fel y byddent yn ei wneud gydag unrhyw fath arall o gam-drin. Dylid rhoi gwybod i'r ADD am bob pryder ar unwaith.

### **Trais ar sail Anrhydedd**

Mae Trais ar sail Anrhydedd yn cynnwys troseddau a gafodd eu cyflawni i amddiffyn neu ddiogelu anrhydedd y teulu a/neu'r gymuned, gan gynnwys anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), priodas dan orfod, ac arferion fel llyfnhau bronau. Mae pob ffurf ar Drais ar sail Anrhydedd yn gamdriniaeth a dylech roi gwybod amdanynt ar unwaith i'r ADD.

FGM yw'r enw torfol ar ystod o weithrediadau sy'n cynnwys cael gwared ar yr organau cenhedlu benywaidd allanol yn rhannol neu'n llwyr am resymau anfeddygol. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r arfer yn drosedd o dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003. Gall yr arfer achosi poen a thrallod dwys a chanlyniadau iechyd tymor hir, gan gynnwys anawsterau wrth eni plentyn.

Gweithredir FGM ar fenywod unrhyw oedran, o fabanod ifanc i bobl ifanc hŷn yn eu harddegau a merched sy'n oedolion, felly mae staff y coleg wedi'u hyfforddi i wybod beth yw'r dangosyddion risg. Mae llawer o weithrediadau fel hyn yn cael eu cyflawni dramor a dylai staff fod yn arbennig o effro i amheuan neu bryderon a fynegir gan ddysgwyr benywaidd ynghylch mynd ar wyliau hir yn ystod cyfnod gwyliau'r haf.

Priodas dan orfod yw lle nad yw merch (a dyn weithiau) yn cydsynio i'r briodas ond yn cael ei gorfodi i wneud hynny. Mae'r orfodaeth yn gallu cynnwys rhoi pwysau corfforol, seicolegol, ariannol, rhywiol ac emosiynol. Gall hefyd gynnwys trais a cham-drin corfforol neu rywiol. Yng Nghymru a Lloegr mae'r arfer yn drosedd o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014. Gellir priodi plant yn ifanc iawn, a llawer ifancach na'r oedran

cydsynio. Mae staff y coleg wedi cael hyfforddiant a dylid ymchwilio i unrhyw amheuron neu bryderon ynghylch dysgwyr sy'n cael eu cludo dramor ac nad ydynt yn cael dychwelyd i'r Deyrnas Unedig. Nid yw priodas dan orfod yr un peth â phriodas wedi'i threfnu, sy'n gyffredin mewn sawl diwylliant. Mae teuluoedd y ddau briod yn chwarae rhan flaenllaw wrth drefnu'r briodas ond y darpar briod sy'n dewis a ddylid derbyn y trefniant ai peidio.

### **Radicaleiddio ac Eithafiaeth**

Mae'r llywodraeth yn diffinio eithafiaeth fel gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd sylfaenol Prydeinig, gan gynnwys democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, rhyddid yr unigolyn a pharchu a goddef gwahanol gredoau a ffydd y naill a'r llall. Mae rhai dysgwyr mewn perygl o gael eu radicaleiddio: mabwysiadu credoau a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n niweidiol, yn droseddol neu'n beryglus. Eithafiaeth Islamaidd yw'r ffurf sy'n cael y rhan fwyaf o gyhoeddusrwydd ond dylai staff colegau barhau i fod yn effro hefyd i'r risg o radicaleiddio i eithafiaeth goruchafiaeth pobl groenwyn. Mae staff y coleg yn derbyn hyfforddiant i helpu i ganfod arwyddion eithafiaeth. Darperir cyfleoedd yn y cwricwlwm i alluogi dysgwyr i drafod materion neu grefydd, ethnigrwydd a diwylliant, ac mae'r coleg yn dilyn Canllawiau Diwygiedig Dyletswydd Prevent Llywodraeth EM ar gyfer Cymru a Lloegr (Gorffennaf 2015) a Chanllawiau'r Ddyletswydd Prevent ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru a Lloegr. Dylid darllen yr adran hon ar Ddiogelu ar y cyd â Pholisi Prevent y Coleg.

### **Camfanteisio Troseddol**

Mae cam-fanteisio troseddol yn ddull daearyddol eang o niweidio sy'n nodweddiadol o weithgareddau troseddol llinellau cyffuriau: rhwydweithiau cyffuriau neu gangiau sy'n ecsbloetio pobl ifanc i gludo cyffuriau ac arian o ardaloedd trefol i ardaloedd maestrefol a gwledig, marchnadoedd a threfi glan môr. Y prif ddangosydd yw cynnydd mewn absenoldeb ac yn ystod yr amser hwnnw mae'n bosibl bod y dysgwr wedi cael ei fasnachu at ddibenion cludo cyffuriau neu arian. Gall camfanteisio gan linellau cyffuriau effeithio ar unrhyw blentyn dan 18 oed. Gellir ei ystyried yn ecsbloetio hyd yn oed os yw'r gweithgaredd yn ymddangos yn gydsyniol, gall gynnwys dulliau cydymffurfio sy'n seiliedig ar rym a/neu ddenu ac yn aml mae trais neu fygythiadau o drais yn cyd-fynd ag ef. Gall unigolion neu grwpiau, unrhyw rywedd, a phobl ifanc neu oedolion gyflawni camfanteisio drwy linellau cyffuriau ac fe'i nodweddir gan ryw fath o anghydbwysedd grym, fel oedran, rhywedd, gallu gwybyddol, cryfder corfforol, statws a mynediad at adnoddau economaidd neu adnoddau eraill.

### **Mulod Arian**

Mae colegau yn faes recriwtio allweddol ar gyfer troseddwyr sydd am symud arian trwy gyfrifon fel eu bod yn edrych yn llai amheus i fanciau. Rhoddir cyfran i bobl ifanc am ganiatáu defnyddio eu cyfrif. Yn aml nid ydynt yn gofyn unrhyw gwestiynau ynghylch ffynhonnell yr arian. Dynion ifanc yw'r rhan fwyaf o fulod arian, sydd, wrth geisio rhoi'r gorau iddi, yn cael eu bygwth yn aml â thrais gan y troseddwyr a'u recriwtiodd. Caiff pobl ifanc eu recriwtio i'r gweithgaredd anghyfreithlon trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn aml nid ydynt yn deall y canlyniadau petaent yn cael eu dal y byddent yn wynebu carchar yn ogystal â chau eu cyfrifon banc a chael anawsterau gyda chyllid yn y dyfodol. Mae'r nifer sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn wedi cynyddu'n sylweddol ers 2018.

### **Meithrin Perthynas at Ddiben Rhyw**

Dyma feithrin perthynas, ymddiriedaeth a chysylltiad emosiynol â phlentyn neu oedolyn agored i niwed, fel y gallant ddylanwadu arnynt, eu hecsbloetio a'u cam-drin. Gellir cam-drin plant a



phobl ifanc yn rhywiol, eu hecsbloetio neu eu masnachu. Mae unrhyw un yn gallu gwneud hyn, waeth beth fo'u hoed, eu rhywedd na'u hil. Mae'r arwyddion yn gallu cynnwys:

- Rhoi sylw arbennig i'r dysgwr
- Prynu anrhegion i'r dysgwr heb unrhyw reswm dros hynny
- Cynnig prynu alcohol neu gyffuriau i'r dysgwr
- Treulio amser gyda'r dysgwr tra bydd yn cael cawod neu'n dadwisgo
- Siarad am ryw a dweud jôcs am ryw
- Cyffwrdd y dysgwr ym mhresenoldeb ei rieni/gofalwyr i wneud i'r dioddefwr gredu bod y gamdriniaeth yn iawn. Gall hyn fod yn ddim ond cofleidiad.
- Nad yw'r dioddefwr yn dymuno cael ei gofleidio gan y sawl sy'n ei gam-drin.
- Bod y sawl sy'n cam-drin y dysgwr yn rhannu'r un diddordebau er eich bod chi'n gwybod nad yw hynny'n wir.

### **Trefniadau maethu preifat**

Mae trefniant maethu preifat yn digwydd pan fydd rhywun heblaw rhiant neu berthynas agos yn gofalu am ddysgwr dan 16 oed am gyfnod o 28 diwrnod neu hwy, gyda chytundeb rhieni'r plentyn. Mae'n berthnasol i blentyn dan 16 oed neu dan 18 oed os yw'r plentyn yn anabl. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i riant, gofalwr maeth preifat neu bobl eraill sy'n ymwneud â threfnu maethu preifat roi gwybod i'r gwasanaethau plant cyn gynted â phosibl.

### **Llety**

Mae ymchwil wedi dangos bod plant yn gallu bod yn hynod o agored i niwed mewn sefyllfaoedd preswyl. Bydd pob llety yn cydymffurfio â'r Lleiafswm Gofynion Cenedlaethol a bydd CIW yn eu harchwilio.